# Felly, Beth yw'r Broblem?
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Felly, Beth yw'r Broblem? yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| **Felly, Beth yw'r broblem? Gweithgaredd dilynol** | **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| **1.a Bingo dosbarth** | Ll(Ll)g<br>Ll(D)d&d<br>Ll(Y)i | ▪ Gwahaniaethu rhwng ffeithiau, cred a barn | ▪ Effeithiau niweidiol alcohol a chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. |
| **1.b Cwis** | Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d | ▪ Gwahaniaethu rhwng ffeithiau, cred a barn | ▪ Effeithiau niweidiol alcohol a chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. |
| **2. Gweithgaredd rhesymau dros beidio â chamddefnyddio alcohol** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | ▪ Defnyddio technegau priodol ar gyfer myfyrio personol | ▪ Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach. |
| **3. Gweithgaredd canfod barn** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(Y)i<br>Ll(Y)casll | ▪ Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | ▪ Archwilio eu gwerthoedd personol |
| **4. Gweithgaredd strategaethau** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)i | ▪ Cydweithio i ddatrys problemau | ▪ Effeithiau niweidiol alcohol a chyffuriau cyfreithlon ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Gwrthsefyll pwysau cyfoedion ac ymddygiad na chroesewir | anghyfreithlon eraill arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill.<br>▪ Deall bod gan weithredoedd personol ganlyniadau |
| **5. Sefyllfa theatr** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | ▪ Dangos empathi gyda phrofiadau a theimladau pobl eraill<br>▪ Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus. | ▪ Deall pwysigrwydd diogelwch personol<br>▪ Deall bod gan weithredoedd personol ganlyniadau |
| **6. Gweithgaredd ymddygiad peryglus** | Ll(Ll) c&th | Nodi cysylltiadau rhwng achos ac effaith | ▪ Effeithiau niweidiol alcohol a chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. |
| **7. Gweithgaredd taflen/poster** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)sd<br>Ll(D)y&d<br>Ll(Y)i | Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau | ▪ Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill |

1. **Gweithgaredd rhagarweiniol** - defnyddiwch naill ai gweithgaredd 1.a. neu 1.b fel cyflwyniad i gysylltu gyda a mynd dros y sesiwn flaenorol.

**1.a. Bingo Dosbarth** – Dechrau gydag ymarferiad bingo dosbarth i ailadrodd gwaith Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu. Rhowch grid bingo i bob disgybl ac ysgrifennwch y 12 gair allweddol isod ar y bwrdd. Gofynnwch i bob disgybl lenwi'r naw sgwâr drwy roi eu dewis hwy o 9 allan o'r 12 eitem mewn unrhyw drefn, alcohol, toddydd, camddefnyddio, yfed sbri, ymddygiad gwrthgymdeithasol, iselyddion, risgiau, canlyniadau, cyffur, moddion a cyfraith.

1. *Alcohol* – mae yfed hwn yn newid y ffordd y mae eich meddwl neu'ch corff yn gweithio
2. *Toddydd* – mae'r hylif hwn yn anweddu ac mae ei arogli yn newid y ffordd y mae eich meddwl neu'ch corff yn gweithio. Gall ladd y tro cyntaf.

3. *Camddefnyddio* - defnyddio rhywbeth yn anghywir neu mewn modd na fwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio
4. *Yfed Sbri* - pan fydd dynion yn yfed mwy nag 8 uned mewn un sesiwn a phan fydd menywod yn yfed mwy na 6 uned mewn un sesiwn.
5. *Ymddygiad Gwrthgymdeithasol* - unrhyw ymddygiad sy'n gofidio rhywun neu y mae hwy'n feddwl sy'n anghywir, neu yn erbyn y gyfraith.
6. *Iselyddion* - mae'r rhain yn lleihau gweithgaredd eich corff gan wneud i'ch corff weithio'n arafach.
7. *Risgiau* – cynyddu'r siawns o berygl
8. *Canlyniad* - beth sydd wedi mynd neu wedi digwydd yn barod
9. *Cyffur* - cyffur yw rhywbeth sy'n newid y ffordd y mae eich meddwl neu'ch corff yn gweithio
10. *Moddion* – mae pob moddion yn gyffur ond nid yw pob cyffur yn foddion.
11. *Cyfraith* – rheol ysgrifenedig sy'n atal rhai gweithredoedd e.e. mae'n anghyfreithlon i brynu alcohol o dan 18 oed.
12. *Unedau* - mae i ddiodydd alcoholig wahanol gryfderau a chaiff eu cryfder ei fesur gan ddefnyddio'r rhain.

Darllenwch yn uchel ddiffiniadau'r 12 term yn eu tro ac mewn unrhyw drefn. Er mwyn gwneud yn siŵr fod y drefn yn un ar hap gellir ysgrifennu'r diffiniadau ar gardiau bychan ymlaen llaw. Cymysgir y cardiau, neu eu hysgwyd mewn cwdyn fel nad oes trefn iddynt, fel mewn bingo go iawn.

Bydd y disgyblion yn croesi'r termau ar eu cerdyn os a phan fyddant yn cyfateb y diffiniadau. Pan fydd rhywun yn galw llinell (llorwedd, fertigol neu groeslin), byddant yn darllen yn uchel y termau a'u hystyr. Yna byd dy gêm yn parhau nes gorffen y cerdyn cyfan. Eto, bydd yr enillydd yn darllen yn uchel y termau a'u hystyr.

**1.b. Gweithgaredd cwis PowerPoint** – Defnyddiwch y cwis PowerPoint. Gellir rhannu'r dosbarth yn 2 dîm neu ragor, neu gall disgyblion weithio mewn parau neu'n unigol. Gallant ddangos eu hateb fel gwir neu gau drwy godi bawd am wir a bawd i lawr am gau. Os ydynt mewn 2 dîm, gellir gofyn cwestiwn gwir neu gau a bonws i bob tîm yn ei dro, gyda phwynt yn cael ei roi am ateb cywir.




Felly beth yw'r broblem?
Cwis dilynol ar gyfer athrawon
A yw'r datganiadau canlynol yn wir neu'n gau?
Ceisiwch ateb y cwestiwn bonws




Mae alcohol yn gyffur




Gwir










Noder

Mae alcohol yn y rhan fwyaf o gwrw neu lager, gallant fod yn wahanol o ran cryfder. Ar gyfartaledd cryfder lager yw 4% sy'n golygu bod 4 rhan mewn 100 yn alcohol. Mae rhai cwrw/lager yn ddi-alcohol. Caiff hyn ei ddangos ar y tun bob amser.

## Gau



## Cwestiwn bonws


Allwch chi esbonio beth yw cyffur? (Nid enghreifftiau)


## Ateb

Mae cyffur yn sylwedd yr ydych yn ei roi yn eich corff (dim bwyd) sy'n newid y ffordd y mae eich meddwl a'ch corff yn gweithio.


Rhaid i chi fod yn 18 oed i allu prynu alcohol.



Gwir


Cwestiwn bonws
Allwch chi esbonio pam fod arogli toddyddion mor beryglus?


Ateb
Gall toddyddion achosi marwolaeth drwy rwystro person rhag anadlu.


Mae glud yn enghraifft o doddydd.


Gwir


Cwestiwn bonws
Rhowch y canlynol yn eu trefn o'r cryfaf i'r gwanaf yn ôl cyfaint alcohol.
Shandi
Coke
Gwin
Seidr
Vodca












Noder

Mae uned yn fesur o alcohol, a boed yn uned o gwrw neu fodca, mae'r uned yn parhau'r un fath. Ystyriwch pa un yw'r trymaf, tunnell o aur ynteu tunnell o blu. Bydd llawer mwy o blu ond byddant yn dal i bwyso tunnell.


Cwestiwn bonws
Allwch chi ddisgrifio rhai o'r effeithiau y gall yfed llawer o alcohol ei gael ar berson?



Ateb
Colli cydbwysedd, methu â cherdded yn iawn
Mynd yn ymosodol
Ymddygiad gwrthgymdeithasol e.e. ymladd
Chwydu
Mynd yn anymwybodol
Llai hunanymwybodol (gwneud pethau efallai na fyddech yn eu gwneud os na fyddech wedi meddwi)


Rhaid i chi fod yn 18 a drosodd i brynu pob math o doddydd.
diaroglydd


Gau


**NODER**

Gall rhai toddyddion megis diaroglyddion, farnais ewinedd a polish dodrefn gael eu prynu gan bobl dan 18 oed. Byddai angen i'r person fod dros 18 i brynu petrol, tanwydd taniwr sigaréts a rhai glud pren a gallai olygu bod y siopwr yn gofyn am brawf oedran.














**NODER**

Mae alcohol yn iselydd – mae'n arafu'r corff, dyna pam y gall pobl golli rheolaeth dros symudiadau (y defnydd o'r coesau a'r breichiau), siarad yn aneglur a mynd yn anymwybodol pan fyddant yn camddefnyddio alcohol.






**2. Gweithgaredd Rheswm dros beidio….** - Lawrlwythwch y cardiau rhesymau dros beidio camddefnyddio alcohol a'u torri'n gardiau unigol. Rhowch set o gardiau rhesymau i bob grŵp gan gynnwys ambell un gwag, a ddarperir.

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y rhesymau dros beidio yfed alcohol ac i lenwi'r cardiau gwag drwy ysgrifennu unrhyw reswm arall y gallant feddwl amdano dros beidio yfed alcohol. Gofynnwch i grŵp ohonynt drafod pa rai yw'r rhesymau pwysicaf. Gofynnwch i'r grŵp roi eu hatebion yn nhrefn pwysigrwydd, gan roi'r ateb pwysicaf ar dop y set a'r lleiaf pwysig ar y gwaelod. Esboniwch i'r grŵp bod yn rhaid iddynt i gyd gytuno ar y drefn. Yna gofynnwch i ddau grŵp gymharu eu hatebion a thrafod a chyfiawnhau eu rhesymu a'r gwahaniaethau. Gall y ddau grŵp fel un ddiwygio'r drefn os bydd angen. Hwyluswch adborth dosbarth drwy gymharu ymatebion grwpiau.

**3. Gweithgaredd Canfod Barn:** lawrlwythwch y taflenni ffeithiau canfod barn. Rhannwch y dosbarth yn barau. Rhowch daflen canfod barn i bob pâr. Gall y parau naill ai grwydro a chofnodi faint sy'n cytuno √/ anghytuno **X** / ddim yn siŵr **?** am bob datganiad. Rhaid iddynt drafod rhesymau ei gilydd dros y farn a roddir. Neu, trefnwch y gweithgaredd mewn parau neu fel dosbarth cyfan, er mwyn dosbarthu'r datganiadau i dri categori. Yna bydd y disgyblion yn dychwelyd i'w seddi ar gyfer trafodaeth ddosbarth. Pa ddatganiadau a achosodd y mwyaf o wahaniaeth barn? Pa ddatganiadau a achosodd y lleiaf o wahaniaeth barn? Pam?

**4. Gweithgaredd strategaethau** - Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Rhowch ddalen o bapur siart fflip a phennau i bob grŵp. Torrwch yr adnodd datganiad strategaeth a dosbarthwch un i bob grŵp i roi ar eu desg. Gofynnwch i'r disgyblion symud o gwmpas yr ystafell mewn tawelwch a darllen y datganiadau ac yna ysgrifennu **un peth** ar unrhyw ddalen siart fflip mewn ymateb i'r datganiad. Eu hymateb greddfol cyntaf ddylai hwn fod. Yna gofynnwch i'r disgyblion ddychwelyd i'w grwpiau, ac fel tîm ychwanegu o leiaf 3 neu 4 ymateb arall i'r datganiad a roddwyd iddynt yn y man cyntaf.

Wedi cyfnod o drafod gofynnwch i'r grwpiau gyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth cyfan. Achubwch ar y cyfle i ddatblygu syniadau'r disgyblion, yn enwedig sut i ddelio â phwysau gan gyfoedion mewn perthynas ag alcohol.

**Datganiadau strategaeth**

| |
|---|
| **Rydw i'n meddwl y gallai fod yn hwyl yfed alcohol oherwydd ...** |
| **Rydw i'n meddwl nad yw'n llawer o hwyl yfed alcohol oherwydd ..** |
| **Os byddai ffrind yn gofyn i mi yfed alcohol mewn parti byddwn yn……..** |
| **Nid wyf am yfed alcohol oherwydd……….** |
| **Hoffwn roi cynnig ar alcohol yn y dyfodol oherwydd……….** |
| **Rwyf yn meddwl fod toddyddion yn beryglus oherwydd…..** |
| **Ni fyddwn yn rhoi cynnig ar doddyddion oherwydd…..** |
| **Pe byddwn yn gweld fy ffrindiau yn cymryd toddyddion byddwn yn…….** |

**5. Sefyllfa theatr** -Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu i grwpiau ddeall effeithiau gwahanol agweddau ac ymddygiad a chanlyniadau gwahanol weithredoedd.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Rhowch un neu ddau gerdyn golygfa i bob grŵp (mae 1 cerdyn golygfa yn ymwneud â chamddefnyddio toddyddion ac un â chamddefnyddio alcohol) a ddarperir yn yr adnoddau. Cyflwynwch y sefyllfa sydd i'w phortreadu.
Dylai pob grŵp benderfynu pa gymeriadau fydd yn cymryd rhan, pwy sy'n chwarae rhan bob cymeriad a lle mae'r digwyddiad i ddigwydd e.e.

Llun 1

- Bachgen / merch
- Brawd neu chwaer fach
- Rhiant / rhieni
- Parafeddyg
- Tŷ / ysbyty

Llun 2

- Bachgen / merch
- Siopwr mewn siop gwerthu alcohol
- Ffrind/ffrindiau
- Rhiant / rhieni
- Siop gwerthu alcohol / cartref

Gofynnwch i bob grŵp ddyfeisio sefyllfa yn dangos canlyniad posibl y weithred hon. Rhowch amser i'r grŵp ddyfeisio ac ymarfer eu chwarae rôl.

Os yn bosibl eisteddwch y dosbarth mewn cylch o gwmpas y gofod gweithio. Eglurwch y rheolau. Dewiswch un grŵp a gofynnwch iddynt berfformio'r olygfa y maent wedi ei chreu. Gadewch i'r olygfa fynd rhagddi am ychydig funudau. Pan fo'r olygfa yn mynd yn ei blaen mae

rhyddid i aelodau'r dosbarth atal y perfformiad drwy godi eu llaw. Yna gall y person sydd wedi codi ei law awgrymu addasiad i'r sgript a gofyn i'r grŵp actio'r awgrym, neu newid rôl gydag un aelod o'r grŵp. Gall actorion hefyd atal y perfformiad a gofyn am gymorth gan y gynulleidfa. Mae hyn yn caniatáu i'r ddrama gael ei throi'n ôl a darnau gael eu hailchwarae mewn ffyrdd gwahanol i archwilio holl bosibiliadau, effeithiau a chanlyniadau'r sefyllfa bresennol neu'r sefyllfa yn y dyfodol. Gellir hyd yn oed ei throi'n ôl i archwilio llwybr newydd.

Gall yr athro/athrawes ddadfriffio er mwyn ailadrodd y negeseuon a'r pwyntiau dysgu allweddol. Nid oes angen aros tan ddiwedd y chwarae rôl, gellir atal y perfformiad ar unrhyw adeg i drafod pwynt neu fater sy'n codi.

Mewn gwersi yn y dyfodol gall y gweithgaredd hwn a'r canlyniadau a drafodwyd:

- Arwain at wers ar gymorth cyntaf ac yn arbennig yr ystum adferol gan ddefnyddio'r adnodd braslun a ddarperir fel adnodd i sbarduno.
- Cael ei defnyddio fel drama ar gyfer gwasanaeth i gyflwyno negeseuon allweddol o fewn yr ysgol.

**6. Gweithgaredd Ymddygiad Peryglus** - Mae'n bwysig canfod yn gyntaf os oes gan unrhyw ddisgyblion alergeddau wyau, gan na allant gymryd rhan na bod yn agos i'r gweithgaredd hwn.
Paratowch 3 wy wedi eu berwi'n galed a'u rhoi mewn bocs wyau (bocs mawr ar gyfer 10 neu 12 wy) a rhowch 7 wy heb eu berwi ymhlith yr wyau wedi'u berwi'n galed. Gofynnwch i 7 o ddisgyblion helpu gyda'r gweithgaredd. Yn ei dro caiff bob person fwgwd dros ei lygaid a gofynnir iddynt sefyll ar ddalen fawr o blastig. Gwnewch yn siŵr fod dillad y disgyblion wedi eu cuddio gan ffedog fawr blastig. Bydd y disgyblion yn dewis wy o'r bocs ac yn ei wasgu. Ailadroddwch y gweithgaredd hwn gyda'r 10 wy, bydd 3 disgybl yn lwcus tra bydd 7 wedi gweld yr wyau yn cracio yn eu dwylo. Mae'r gweithgaredd yn dangos % y siawns o berson yn marw wedi arogli erosol am y tro cyntaf; y ffracsiwn yw 7/10fed neu 70%. Mae'n bwysig i ddisgyblion allu deall y lefel o berygl drwy ddim ond rhoi cynnig ar hyn unwaith yn unig.
Os nad ydych am ddefnyddio wyau, gellir gwneud yr un gweithgaredd gyda gwrthrychau lliw mewn bag (7 o un lliw a 3 o liw gwahanol). Dylai'r disgyblion ddewis o'r bag yn eu tro.

**7. Gweithgaredd Poster/Taflen** – Gofynnwch i'r disgyblion ddewis un strategaeth i wrthsefyll pwysau gan gyfoedion a llunio poster yn cynnwys y neges. Efallai y bydd y disgyblion am ddefnyddio TGCh i wneud hyn.